Your Information

A guide for blood donors about your rights and our responsibilities under the Data Protection Act 1998

Your information and how we use it

When you enrol as a blood donor, your personal details are entered on to our computerised blood donor database. Your record will in time contain some or all of the following types of information:

Your personal details:
name, address, date of birth, telephone number, email address, occupation, donor ID number, NHS number;

Attendance details:
where you normally donate (your 'panel'), your appointments and where and when you attended;

Donation details:
including your blood group and the results of all the other tests we perform on your donations;

Correspondence:
details of letters and other communications we have sent;

Other information:
for example periods of unavailability because of travel or illness, other information that may affect your eligibility to donate, or post-donation problems you have told us about.

We use this information:

- to work out when and where to invite you to donate;
- to communicate with you, for example sending session invitations or information about other donation matters. These may include opportunities to volunteer for research projects. We do our best to contact you in the way you prefer. If you want us to change the way we contact you, please let us know via the helpline on 0845 7 711 711, or email Customer Services at customer.services@nhsbt.nhs.uk;

- to ensure your safety, and that of patients who may receive your donations. If we find a problem with your health, we will let you know. If appropriate we will also tell your GP, after asking your permission to do so;
- for clinical audit, to assess and improve our service. We routinely audit all aspects of the donation process, for example to check that the Donor Health Check forms are completed properly, and that interviews with our healthcare professionals are conducted in accordance with the guidelines. Results of audits are always presented with all donor identifiers removed;
- for research, to improve our knowledge about the donor population. By looking at the sorts of people who become active donors we can understand better how to meet their expectations of us, and identify opportunities for recruiting and retaining more donors. This is essential to help us collect adequate supplies of all types of blood;
- for management and administration, for example to help us to plan where and when to hold collection sessions.

Whenever personal identifiers are not needed for these tasks, if possible we remove them from the information we use.

All information about you and your blood donation(s) is stored securely on our database to ensure that we have a complete record of all your donations. We also keep the Donor Health Check forms you complete every time you attend to give blood. We are required by law (The Blood Safety and Quality Regulations 2005) to keep donor and donation information for a minimum of 30 years.

It is important to us to keep your address details up to date, so that we are able to stay in touch. To help us do this we may compare the details we hold with central NHS records, or those of other organizations that offer approved services for checking and updating addresses.

As we are an NHS organisation, we may use people's NHS numbers to help us ensure correct identification and to find and remove duplicate records on our systems. Other than for keeping our own records up to date against central records, we do not allow any other NHS organisation to access the donor database. We do not give or sell donor details to any third parties such as direct marketing firms.

Our Responsibilities

We are committed to maintaining the security and confidentiality of your donor record. We actively implement security measures to ensure your information is safe, and audit these regularly. All our staff and anyone who receives information from us have a legal duty to keep information about you confidential.

We will not release your personal details to any third party without first seeking your consent, unless this is allowed or required by law.

We are working to ensure ongoing compliance with the Data Protection Act 1998.

Your Rights

The Data Protection Act 1998 gives you, the donor, various rights. The most important of these are as follows:

- You have the right to a copy of information we hold about you. Please see 'How to Access Your Records' below;
- You have the right to ask for your record to be amended if you believe that it is wrong.

If you have any other questions about how we use your information, please ask our Data Protection Officer via the helpline number **0845 7 711 711** or email customer.services@nhsbt.nhs.uk.

Further information about the Data Protection Act and your rights is available from the Office of the Information Commissioner. The address is at the end of this leaflet.

How to access your records

You can access the information we hold about you by writing to the Customer Services Department at the address given below. Please include as much information as possible to help us locate your records, including your full name, date of birth and address, plus your Donor ID if you have it. It will also help us to know if we are to look for recent records, or from how long ago. Please apply in writing, rather than by email, so that we receive an original signature to compare against the records we hold.

Sometimes we may have to ask for more details in order to identify you correctly and locate the information you are interested in. If you only want some of your record, rather than everything, then please tell us when you apply.

Subject access is normally provided free of charge, but we may ask for a payment of up to £50 towards the cost of large or complex requests. If we ask for a fee it must be paid before we provide your information.

You may choose whether to visit your nearest NBS centre to collect your records, or to have copies sent by Royal Mail Special Delivery to your home address.

We will provide access to your records within 40 days of receipt of all necessary information, and the fee if applicable.

Please make your request in writing to:

Subject Access Requests
Customer Services
NHS Blood and Transplant
Colindale Avenue
London
NW9 5BG

Fax: 020 8271 6345

For more information about the Data Protection Act 1998 contact:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

ICO Helpline:
08456 306060
01625 545745

Fax: 01625 524510

Website: ico.gov.uk

NHS Blood and Transplant is a Special Health Authority within the NHS, responsible for managing the National Blood Service, UK Transplant and Bio Products Laboratory.

INF/PCS/DI/001/03 LC486PW 09/08

Gwybodaeth amdanoch chi

Canllaw i roddwyr gwaed, ynghylch eich hawliau chi a'n cyfrifoldebau ni o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Gwybodaeth amdanoch a sut y defnyddiwn hi

Pan fyddwch yn cofrestru i roi gwaed, rhoddir eich manylion personol ar ein cronfa ddata gyfrifiadurol o roddwyr gwaed. Bydd eich cofnod, ymhen amser, yn cynnwys rhai neu'r holl fathau canlynol o wybodaeth:

Eich manylion personol: enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, galwedigaeth, rhif ID rhoddwr, rhif GIG;

Manylion presenoldeb: lle byddwch fel arfer yn rhoi gwaed (eich 'panel'), eich apwyntiadau a ble a phryd yr oeddech yn bresennol;

Manylion rhoi gwaed: gan gynnwys eich grŵp gwaed a chanlyniadau pob prawf arall a wneir gennym ar y gwaed a roddwch;

Gohebiaeth: manylion unrhyw lythyrau a gohebiaeth arall a anfonwyd gennym;

Gwybodaeth arall: er enghraifft cyfnodau pan nad ydych ar gael oherwydd teithio neu salwch, gwybodaeth arall a allai effeithio ar eich cymhwysedd i roi gwaed, neu broblemau ar ôl rhoi yr ydych wedi ein hysbysu ohonynt.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth:

- pa bryd ac ymhle i'ch gwahodd i roi gwaed;
- cyfathrebu â chi, er enghraifft. Anfon gwahoddiadau i sesiynau neu anfon gwybodaeth am faterion eraill yn ymwneud â rhoi gwaed. Gallai'r rhain gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer prosiectau ymchwil. Gwnawn ein gorau i gysylltu â chi yn y ffordd sydd orau gennych. Os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi, dywedwch wrthym drwy ffonio'r llinell gymorth ar **0845 7 711 711**, neu anfon e-bost at Wasanaethau Cwsmeriaid yn customer.services@nhsbt.nhs.uk;
- i sicrhau eich diogelwch, a diogelwch cleifion a allai dderbyn eich gwaed. Os byddwn yn canfod problem gyda'ch iechyd, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Os yn briodol, byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'ch meddyg teulu, ar ôl gofyn am eich caniatâd i wneud hynny;
- ar gyfer archwilio clinigol er mwyn asesu a gwella ein gwasanaeth. Byddwn yn archwilio pob agwedd ar y broses roi gwaed fel mater o drefn, er enghraifft i sicrhau bod y ffurflenni Archwiliad Iechyd Rhoddwr Gwaed wedi'u llenwi'n iawn, a bod cyfweliadau gyda'n gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau. Bydd canlyniadau archwiliadau bob amser yn cael eu cyflwyno gyda'r holl wybodaeth a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i adnabod rhoddwyr, wedi cael ei dileu;
- ar gyfer ymchwil, i wella ein gwybodaeth am y boblogaeth sy'n rhoi gwaed. Drwy edrych ar y mathau o bobl sy'n dod yn rhoddwyr gwaed, gallwn ddeall yn well sut i gwrdd â'u disgwyliadau ohonom, a chanfod cyfleoedd ar gyfer recriwtio a chadw mwy o roddwyr. Mae hyn yn hanfodol i'n cynorthwyo i gasglu cyflenwadau digonol o bob mathau o waed;
- ar gyfer rheoli a gweinyddiaeth, er enghraifft i'n cynorthwyo i gynllunio ble a phryd i gynnal sesiynau casglu.

Ar unrhyw adegau pan na fydd angen dynodyddion personol ar gyfer y tasgau hyn, os yn bosibl byddwn yn eu dileu o'r wybodaeth a ddefnyddiwn.

Cedwir yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i chi a'ch rhodd(ion) o waed yn ddiogel yn ein cronfa ddata i sicrhau bod gennym gofnod cyflawn o'ch holl roddion. Byddwn hefyd yn cadw'r Archwiliad Iechyd Rhoddwr Gwaed a lenwir gennych bob tro y byddwch yn dod i roi gwaed. Y mae'n ofynnol drwy gyfraith (Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005) i ni gadw gwybodaeth am waed a rhoddwyr gwaed am isafswm o 30 mlynedd.

Mae'n bwysig i ni gadw manylion eich cyfeiriad yn gyfredol, fel bod modd i ni gadw mewn cysylltiad â chi. I'n cynorthwyo i wneud hyn, efallai y byddwn yn cymharu'r manylion sydd gennym â chofnodion canolog y GIG, neu gofnodion mudiadau eraill sy'n cynnig gwasanaethau cymeradwy ar gyfer gwirio a diweddaru cyfeiriadau.

Gan ein bod yn dod dan adain y GIG, efallai y byddwn yn defnyddio rhifau GIG pobl i'n cynorthwyo i sicrhau adnabod pobl yn gywir ac i ganfod a dileu cofnodion dyblyg ar ein systemau. Nid ydym yn caniatáu i unrhyw sefydliad arall dan adain y GIG i gael mynediad at y gronfa ddata o roddwyr gwaed, ac eithrio er mwyn cadw ein cofnodion ein hunain yn gyfredol yn erbyn cofnodion canolog. Nid ydym yn rhoi na gwerthu manylion rhoddwyr i unrhyw drydydd parti megis cwmnïau marchnata uniongyrchol.

Ein Cyfrifoldebau

Rydym wedi ymrwymo i gynnal diogelwch a chyfrinachedd eich cofnod rhoddwr. Byddwn yn gweithredu mesurau diogelwch i sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddiogel, ac yn archwilio'r rhain yn rheolaidd. Y mae dyletswydd gyfreithiol ar ein holl staff ac unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth odi wrthym i gadw'r wybodaeth amdanoch yn gyfrinachol.

Wnawn ni ddim rhyddhau eich manylion personol i unrhyw drydydd parti heb geisio eich caniatâd yn gyntaf, oni chaniateir neu y mynnir hyn drwy gyfraith.

Rydym yn gweithio i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

Eich Hawliau

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi i chi, y rhoddwr, amrywiol hawliau. Mae'r pwysicaf o'r rhain fel a ganlyn:

- Mae gennych yr hawl i gael copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Gweler 'Sut i Gael Gweld eich Cofnodion' isod;
- Mae gennych yr hawl i ofyn i'ch cofnod gael ei ddiwygio os credwch ei fod yn anghywir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynghylch sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth, gofynnwch i'n Swyddog Diogelu Data drwy ffonio'r llinell gymorth ar **0845 7 711 711** neu anfon e-bost at customer.services@nhsbt.nhs.uk.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Ddeddf Diogelu Data a'ch hawliau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r cyfeiriad ar ddiwedd y daflen hon.

Sut i gael gweld eich cofnodion

Gallwch weld y wybodaeth a ddaliwn amdanoch drwy ysgrifennu at yr Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid yn y cyfeiriad a roddir isod. Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl os gwelwch yn dda, i'n cynorthwyo i ddod o hyd i'ch cofnodion, gan gynnwys eich enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad, ynghyd â'ch ID Rhoddwr, os gwyddoch beth ydyw. Bydd hefyd o gymorth i ni wybod a ydym i chwilio am gofnodion diweddar, neu o ba hyd yn ôl. Gwnewch gais yn ysgrifenedig, os gwelwch yn dda, yn hytrach na thrwy e-bost, fel ein bod yn derbyn llofnod gwreiddiol i'w gymharu â'r cofnodion a ddelir gennym. Weithiau, bydd angen i ni ofyn am fwy o fanylion er mwyn eich adnabod yn gywir a dod o hyd i'r wybodaeth y mae gennych ddiddordeb ynddo. Os mai dim ond rhan o'ch cofnod yr ydych am ei weld, yn hytrach na phopeth, yna dywedwch hynny wrthym wrth wneud eich cais.

Fel arfer caiff person sy'n destun gwybodaeth ei gweld yn rhad ac am ddim, ond efallai y byddwn yn gofyn am dâl o hyd at £50 tuag at gost ceisiadau mawr neu gymhleth. Os gofynnwn am ffi, rhaid iddi gael ei thalu cyn i ni ddarparu'ch gwybodaeth.

Gallwch ddewis un ai i ymweld â'r Ganolfan Gwasanaeth Gwaed agosaf atoch i gasglu'ch cofnodion, neu dderbyn copïau drwy Gludiant Arbennig y Post Brenhinol i'ch cyfeiriad cartref.

Byddwn yn darparu mynediad at eich cofnodion cyn pen 40 diwrnod wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, a'r ffi os yn berthnasol.

Gwnewch eich cais yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda i:

Ceisiadau am Weld Gwybodaeth
Gwasanaethau Cwsmeriaid
Gwasanaeth Gwaed a
Thrawsblannu'r GIG
NHS Blood and Transplant
Colindale Avenue
London
NW9 5BG
Ffacs: 020 8271 6345

I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Llinell Gymorth Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
08456 306060
01625 545745
Ffacs: 01625 524510
Gwefan: ico.gov.uk

Mae Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblannu'r GIG yn Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn y GIG, ac mae'n gyfrifol am reoli'r Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol, Trawsblannu DU a'r Labordy Bio Gynhyrchion.

INF/PCS/DI/001/03 LC486PW 09/08